ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Creu Cangen Fasnachu i ERW

Diben

Darparu'r sail resymegol am greu cangen fasnachu i ERW.

Cefndir

Mae'r Cytundeb Cyfreithiol rhwng y chwe ALl yn caniatáu i ERW ddatblygu gwasanaethau y ceir taliad amdanynt. Mae Adran 10.1.3 yn nodi fel a ganlyn:

10 ***Cyllid***
10.1.3 cyllid a gynhyrchir gan y Consortiwm yn sgil codi tâl ar eraill (gan gynnwys ysgolion) am wasanaethau

Y Sail Resymegol

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae ERW wedi cychwyn cynnig ar y cyd rhwng y pedwar consortia i gyflwyno tendr i Lywodraeth Cymru am wirio Asesiadau Athrawon. Am nad oedd gan ERW y seilwaith yn ei le i arwain y cynnig, bu'n rhaid i ranbarth arall ei arwain. Byddai creu cangen fasnachu yn ein galluogi i adeiladu'r seilwaith sydd ei angen i gynnig yn y dyfodol ar y cyd neu'n unigol.

Daethpwyd atom i wneud gwaith ar ran rhanbarth arall, ac i arwain mewn cynadleddau, felly mae hwn yn waith y gellid ei ddefnyddio i gynhyrchu incwm.
Gallem hefyd gynhyrchu incwm i ychwanegu at y gallu a'r seilwaith canolog. Mae llawer o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus neu lywodraeth leol yn datblygu cangen fasnachu i gynnal a chadw gwasanaethau mewn hinsawdd o anhawster ariannol.

Cryfderau
*bod â'r gallu i gynhyrchu incwm os oes gofyn
*gallu cystadlu â sefydliadau eraill am dendrau a chontractau yn y dyfodol
*bod yn ymatebol i hinsawdd newidiol o gomisiynu a thendro

Risgiau
*peidio â defnyddio'r gallu ar ôl gwneud y gwaith o sefydlu gallu masnachu
*symud i sefyllfa lle byddwn yn codi tâl ar ysgolion am rai gwasanaethau cefnogi

Er mwyn lliniaru'r risgiau uchod, dylai'r gangen fasnachu ei gwneud yn glir yn ei chylch gorchwyl na fydd yn codi tâl ar ysgolion ERW am wasanaethau.

Argymhelliad: argymell bod y Rheolwr Gyfarwyddwr yn gwneud trefniadau, gyda chyngor a gwybodaeth bellach gan y Bwrdd Cynghori, i sefydlu cangen fasnachu i ERW.